

Rhif: WG40732



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol

Fframwaith i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol

Mehfin 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg	<p>Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r ymatebion sy'n gysylltiedig â dull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol.</p> <p>Cyflwynodd yr ymgynghoriad y canllawiau diwygiedig – Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol – a cheisiodd farn ar fframwaith i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Bwriad y fframwaith diwygiedig yw hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol. Mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau hefyd, lle mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, bod hyn yn cael ei lywio gan gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn cyd-destun y lleoliad gwasanaeth ac mewn modd sy'n diogelu'r unigolyn, y rhai y mae'n rhyngweithio â nhw, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer.</p>
Manylion cyswllt	<p>Sam Clutton E-bost: sam.clutton@llyw.cymru</p>
Rhagor o wybodaeth	<p>Mae fersiynau hawdd eu deall, iaith arall, print bras a Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais</p>
Dogfennau cysylltiedig	<p>https://llyw.cymru/canllawiau-ar-leihau-arferion-cyfyngol-mewn-leoliadau-gofal-plant-addysg-iechyd-gofal-cymdeithasol</p>

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	4
Ymgysylltu cyn ymgynghori a Fframwaith Datblygiad	5
Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad	6
Casgliad	15
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	16

1. Cyflwyniad

Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Fframwaith i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol. Mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau hefyd, lle mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, bod hyn yn cael ei lywio gan gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn cyd-destun y lleoliad gwasanaeth ac mewn modd sy'n diogelu'r unigolyn, y rhai y mae'n rhyngweithio â nhw, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer.

Mae Llywodraeth Cymru'n glir y dylai defnyddio arferion cyfyngol ac ataliaeth fod o fewn cyd-destun y [Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol](#) ac yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir yn y *Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth* a gyhoeddwyd gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#).

Mae'r dull o weithredu a gyflwynir yn y Fframwaith hwn yn ceisio hyrwyddo'r hawliau a'r egwyddorion sydd yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP); [Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn](#) a [Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau](#).

Er mwyn cyflawni nodau'r fframwaith hwn, dylai sefydliadau ganolbwyntio ar dair elfen:

- Atal yr angen am arferion cyfyngol drwy ddatblygu strategaethau lleihau a thrwy hyrwyddo dull o weithredu seiliedig ar hawliau dynol, er enghraifft, cymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS).
- Gweithio gydag unigolion i leihau lefel ymateb pan fo angen posibl am arferion cyfyngol yn cael ei nodi fel rhan o'r broses gynllunio ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Pan fo sefyllfaoedd sy'n gofyn am arferion cyfyngol yn cael eu nodi fel rhai na ellir eu hosgoi, sicrhau bod yna gynllunio a hyfforddiant ymlaen llaw i sicrhau diogelwch pawb sy'n ymwneud â'r sefyllfa.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai'r canllawiau y mae'n eu cyhoeddi ar arferion cyfyngol sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn lleoliadau gofal plant, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn rhannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau a gaiff eu llywio gan ddull o weithredu sy'n mynd ati i hyrwyddo hawliau dynol.

Bwriedir i'r Fframwaith ddarparu gwybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau, a dylent gyfeirio at y fframwaith wrth lunio polisiau a gweithdrefnau, adolygu trefniadau presennol a threfnu neu gomisiynu hyfforddiant. **Nid** yw'r Fframwaith yn rhoi cyngor ar gamau gweithredu unigol sy'n ofynnol o dan amgylchiadau penodol neu mewn lleoliadau gwasanaeth penodol, ac nid yw'n argymhell dulliau penodol o ataliaeth.

Mae'r Fframwaith hwn yn anstatudol fodd bynnag; mae'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ac ymarfer o ran lleihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o ddull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly, bydd yr Arolygiaethau: Estyn; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac

Arolygiaeth Gofal Cymru'n ystyried cydymffurfiaeth â'r dull o weithredu sydd yn y Fframwaith wrth gynnal arolygiadau.

Diben yr ymgynghoriad oedd cyflwyno'r canllawiau diwygiedig – Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol (y Fframwaith) – a cheisiodd farn ar y Fframwaith i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn disodli'r [Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol, Llywodraeth Cynulliad Cymru \(2005\)](#).

Roedd y Fframwaith yn destun cyfnod ymgynghori o 12 wythnos rhwng 7 Hydref 2019 a 6 Ionawr 2020. Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd e-bost ymhlith ystod eang o randdeiliaid yn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad ac yn eu gwahodd i ymateb.

Gofynnodd yr ymgynghoriad naw cwestiwn sy'n berthnasol i'r Fframwaith. Cynhyrchwyd fersiwn hawdd ei deall a fersiwn plant a phobl ifanc hefyd, gan ofyn yr un set o gwestiynau.

Cafwyd oedi yn cyhoeddi'r crynodeb hwn o'r ymatebion o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

2. Ymgysylltu cyn ymgynghori a datblygu Fframwaith

Drafftwyd y Fframwaith gan Sarah Leitch (BILD) a Dr Anne MacDonald (The Richmond Fellowship Scotland) ar ran BILD (Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r Fframwaith, gan weithio i Grŵp Cynghori.

Roedd y Grŵp Cynghori yn cynnwys aelodaeth fewnol o bob rhan o feysydd polisi perthnasol Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o:

- Arolygiaeth Gofal Cymru;
- Estyn;
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu;
- GIG Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;

Rhannwyd drafft cyn ymgynghori i ennyn sylwadau cynnar gyda:

- Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4Cs);
- Rhwydwaith Maethu Cymru;
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Anabledd Dysgu Cymru;
- Mind Cymru;
- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru;
- Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
- Grŵp Diogelu Addysg.

3. Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn bennaf gan gomisiynwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn lleoliadau gofal plant, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. O'r 83, ni ddefnyddiodd 32 y templed a ddarparwyd, ond yn hytrach cyflwynwyd dogfennau Word. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn gyfartal.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb o'r holl ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ac yn nodi camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith, a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd llawer yn croesawu'r cyfle i ddiweddarau'r Fframwaith, gan ddweud ei fod yn gam ac yn ddull cadarnhaol o ymdrin â gofal, gyda'r dull yn cefnogi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy wella lles pobl sydd angen gofal a chymorth.

Cwestiwn 1:

Ydy nodau a phwrpas y Fframwaith yn glir ac yn hawdd eu deall yn y Cyflwyniad?

Cyfanswm 83	Ydyn 73	Nac ydyn 0	Ddim yn siŵr 7	Dim ymateb 3
----------------	------------	---------------	-------------------	-----------------

Crynodeb- Yn gyffredinol, roedd sylwadau'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol wrth ymateb i Gwestiwn 1. Dywedodd 91.25% o'r rhai a ymatebodd fod bwriad a dyheadau'r Fframwaith wedi'u nodi'n glir ac yn gadarn, ac yn unol ag ethos a bwriad deddfwriaeth yng Nghymru.

Cytunodd y mwyafrif fod y cyflwyniad yn nodi diben y Fframwaith gan gynnwys polisiâu a deddfwriaeth berthnasol, gan amlygu nodau'r Fframwaith i leihau arferion cyfyngol. Mae hefyd yn darparu hawliau'r unigolion ac yn diogelu a gwarchod y rhai sy'n gofalu amdanynt, yn ogystal â pha broses sydd ar waith i adolygu a gwirio arferion.

Ymatebodd Comisiynydd Plant Cymru: *"Rwy'n gobeithio y bydd y Fframwaith newydd hwn yn helpu i sicrhau bod comisiynwyr mor rhagweithiol â phosibl o ran sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a chymdeithasol yn cael yr hyfforddiant a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i leihau eu defnydd o arferion cyfyngol yn effeithiol"*.

Ymatebodd Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan:

"Mae aelodau Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan ac arbenigwyr eraill (gan gynnwys arbenigwyr drwy brofiad) yn ystyried y Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol hwn ar gyfer Cymru fel un o'r datganiadau polisi mwyaf priodol, cynhwysfawr, cydlynol a blaengar hyd yma. Credwn y gallai hyn roi Llywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru ar flaen y gad o ran ymarfer da rhyngwladol".

Cytunwyd, mewn achosion lle byddai angen arferion cyfyngol, bod y Fframwaith yn sicrhau y byddent yn cael eu cyflawni mewn ffordd 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' yn unol â Deddf Hawliau Dynol (1998) ac y byddai gweithio fel hyn yn diogelu'r unigolyn a'r staff dan sylw.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am yr angen i'r Fframwaith fod yn fwy manwl a phenodol i'r sector. Er enghraifft:

Dyma farn yr NASUWT: "nid yw'r Fframwaith yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd hanfodol y mater hwn na'r ffordd orau o fynd i'r afael ag ef yng nghyd-destun ymddygiad heriol gan ddisgyblion. Roeddent yn pryderu hefyd y byddai dull 'un ateb sy'n addas i bawb' yn arwain at ddryswch, gyda goblygiadau lles negyddol i ddysgwyr a gweithwyr. Byddai angen i unrhyw gyngor ac arweiniad i ysgolion a darparwyr amgen ar ataliaeth adlewyrchu'r gwahaniaethau cyd-destunol hyn".

Er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dweud eu bod yn croesawu'r Fframwaith a'i fod yn gadarnhaol iawn ac yn tynnu sylw at y gwerth a'r pwysigrwydd a roddir i'r pwnc dan sylw, teimlent fod y Fframwaith yn eithaf eang a byddent wedi croesawu canllawiau penodol ar gyfer grwpiau gwasanaeth, ond roeddent yn cydnabod nad yw hyn mor syml â hynny.

Dyweddodd rhai ymatebwyr fod y Fframwaith wedi'i bwysoli tuag at y Gwasanaethau i Blant; fodd bynnag, mynegodd eraill, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, bryderon am ffocws ar oedolion yn hytrach nag oedolion a phlant a phobl ifanc.

Er yn cytuno â chynnig y Fframwaith, awgrymwyd gan fwy nag un sefydliad y dylid gosod y Fframwaith ar sail statudol i roi dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i gadarnhau, oherwydd yn ei ffurf bresennol, bydd y fframwaith yn cael ei ystyried fel canllaw arferion gorau gan wasanaethau sydd dan bwysau gormodol yn aml. Er eu bod yn croesawu'r rolau a fydd gan arolygiaethau wrth asesu effaith y Fframwaith, maent yn dal i bryderu, oherwydd ei fod yn Fframwaith anstatudol, y bydd sefydliadau yn ystyried y canllawiau a nodir fel rhai y dylid eu dilyn o ran pennu a gweithredu polisi, yn hytrach na rhai sy'n rhaid eu dilyn.

Cafwyd rhai sylwadau am y defnydd o iaith a therminoleg gymhleth yn y Fframwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n galonogol gweld bod cyfran sylweddol o'r ymatebwyr a roddodd sylw i'r cwestiwn hwn yn cytuno y byddai'r Fframwaith yn cynnig canllawiau cadarnhaol i leihau dibyniaeth ar arferion cyfyngol ac felly'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl a allai eu profi.

Bu'r Grŵp Cyngori a fu'n llywio datblygiad y Fframwaith yn ystyried yn fanwl yr opsiwn o baratoi Fframwaith statudol, yn hytrach na Fframwaith anstatudol fel sy'n cael ei gynnig, a chynnwys canllawiau mwy penodol i'r sector.

Byddai hyn yn heriol i'w gyflawni mewn modd amserol, ar draws sectorau, yn bennaf oherwydd yr ystod o ddeddfwriaeth a rheoleiddio perthnasol. Fodd bynnag, y brif resymeg dros y penderfyniad i baratoi Fframwaith anstatudol oedd cytundeb bod angen newid

diwylliant ar draws sectorau, wedi'i hategu gan bolisiâu lefel sector a datblygu'r gweithlu. Teimlwyd ar y cyfan mai'r dull gorau oedd gosod disgwyliadau ac annog perchnogaeth ar lefel sector. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i Weinidogion gytuno i ymrwymiad i adolygu effaith gweithredu'r Fframwaith ar ôl 3 blynedd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'r sylw a wnaed yn ymwneud â'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y Fframwaith. Bydd mynd i'r afael â hyn yn rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo, a fydd yn cynnwys diweddarau'r Fframwaith i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd a sicrhau bod y Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy.

Gwnaed argymhelliad bod cyfle yn y cyflwyniad i gryfhau'r cyngor ynghylch pam y dylid lleihau arferion cyfyngol yng Nghymru, a byddwn yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn yn y Fframwaith terfynol.

Cwestiwn 2:

Ydy Pennod 1 yn rhoi gwybodaeth am fframwaith hawliau dynol ar gyfer lleihau arferion cyfyngol mewn ffordd sy'n glir ac yn ddefnyddiol?

Cyfanswm 83	Ydy 72	Nac ydy 1	Ddim yn siŵr 6	Dim ymateb 4
----------------	-----------	--------------	-------------------	-----------------

Crynodeb- Roedd 91% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod Pennod 1 yn nodi gwybodaeth am fframwaith hawliau dynol ar gyfer lleihau arferion cyfyngol mewn ffordd sy'n glir ac yn ddefnyddiol, ac sydd hefyd yn tynnu sylw at y camau y dylai sefydliadau eu cymryd i sicrhau bod arferion cyfyngol yn cael eu lleihau.

Ymatebodd Comisiynydd Plant Cymru: *“Mae'r Fframwaith hwn yn ddogfen bwysig o ran sicrhau ein bod ni, yng Nghymru, yn cymryd pob cam priodol posibl i atal trais a chreulondeb yn erbyn plant a phobl ifanc. Rwy'n falch o weld bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i gynnwys yn yr adran 'pwrpas y fframwaith'.”* Fodd bynnag, er bod cyfeiriad at hawliau dynol plant o dan CCUHP yn Atodiad 1, byddai Comisiynydd Plant Cymru wedi hoffi eu gweld yn cael eu cynnwys yn adran fframwaith hawliau dynol y ddogfen hon, a byddai hefyd yn hoffi gweld cyfeiriad uniongyrchol at egwyddorion CCUHP yn cael ei gynnwys.

Croesawodd Mind Cymru y ffaith bod y Fframwaith yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD), ond roedd yn destun pryder iddynt na chyfeiriwyd at y naill na'r llall ym Mhennod 1.

Mae Estyn yn croesawu'r canllawiau, gan ddweud *“mae ganddo'r potensial, gyda chynllunio strategol ymlaen llaw a sicrhau bod staff hyfforddedig arbenigol ar waith, i sicrhau bod pob haen a rhanddeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddysgu a datblygu eu hymarfer yn gyson. Bydd hefyd yn cefnogi ac yn cydweddu ag egwyddorion y Bil ADY”*.

Gwnaed rhai sylwadau penodol am wneud diwygiadau i Bennod 1. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau am gryfhau'r rhestr eirfa a'r disgrifiad o fesurau i gefnogi ymddygiad.

Roedd un ymateb yn anghytuno bod y bennod yn glir ac yn ddefnyddiol, gan nodi fod y geiriad y "dylai" sefydliadau yn wan. Awgrymwyd bod yr elfen orchmynnol yn cael ei chryfhau rywfaint e.e. *'Mae sefydliadau effeithiol yn sicrhau bod polisi clir ar waith i helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau yng nghyd-destun y fframwaith hwn.'*

Awgrymwyd hefyd fod angen monitro a myfyrio ar weithrediad y polisi er mwyn sicrhau bod polisiâu'n gyson ac yn effeithiol a phenderfynu a yw cyflogeion yn cydymffurfio, a bod hynny'n arbennig o bwysig yn y sector gofal plant, y blynyddoedd cynnar a chwarae. Yr awgrym oedd y dylid nodi'r mesurau hyn yn y Fframwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a wnaed am iaith a therminoleg a byddwn yn adolygu'r Fframwaith i sicrhau ei fod yn glir ac yn ddealladwy. Rydym hefyd yn ystyried sut i ymgorffori'n well y cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) ym mhrif gorff y Fframwaith.

Cwestiwn 3:

Ydy Pennod 2 yn rhoi gwybodaeth am gymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS) mewn ffordd glir a defnyddiol?

Cyfanswm 83	Ydy 62	Nac ydy 5	Ddim yn siŵr 10	Dim ymateb 6
----------------	-----------	--------------	--------------------	-----------------

Crynodeb- O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd y mwyafrif neu 81% fod Pennod 2 yn darparu gwybodaeth am Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) mewn ffordd glir a defnyddiol.

Cafwyd sylwadau bod y ffocws ar waith ataliol yn glir ac yn ychwanegiad cadarnhaol. Nodwyd bod yr egwyddorion wedi eu nodi'n glir a phwysigrwydd tynnu sylw at yr angen i staff gael hyfforddiant mewn PBS, gan fod angen adnoddau a sgiliau defnyddiol ar bobl i gefnogi eu gwaith o ddydd i ddydd.

Cytunwyd, yn gyffredinol, fod y bennod hon yn disgrifio pwysigrwydd PBS ac yn cydnabod ac yn dangos yn glir fod PBS ar ei fwyaf effeithiol a llwyddiannus pan gaiff ei weithredu ar draws gwasanaeth neu sefydliad cyfan, yn hytrach na dim ond gan unigolyn.

Croesawodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) y cyfle y bydd cyhoeddi'r canllawiau hyn yn ei ddarparu ar gyfer moderneiddio ac ymarfer yng ngoleuni meddylfryd cyfoes, ac mewn ffordd sy'n hygyrch i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau perthnasol.

Mynegodd tri ymatebydd bryderon ynghylch sut y caiff PBS ei ddisgrifio yn y ddogfen, gan awgrymu y bu cytundeb ymysg academyddion blaenllaw yn y maes hwn y dylid cyfeirio at

y dull hwn fel “Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol” yn hytrach na “Chymorth Ymddygiadol Cadarnhaol”. Roedd un ymatebydd yn teimlo nad yw'r dystiolaeth ar PBS yn ddigonol i'w chynnwys fel dull ymarfer.

Gwnaed sylw cyffredinol nad oes sôn penodol am ofal dementia, ac mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn credu y dylid ymestyn y dull hwn yn benodol i gwmpasu'r maes ymarfer hwn, yn enwedig gan mai dull PBS yw'r adnodd mwyaf gwerthfawr gyda'r grŵp cleientiaid hwn.

Awgrymwyd y dylai'r iaith yn y ddogfen drwyddi draw fod yn hawdd ei deall ac yn hygyrch. Mae angen i'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio fod yn gynhwysol i oedolion a phlant a phobl ifanc drwy'r ddogfen gyfan.

Nododd nifer o ymatebion fod y Fframwaith yn cynnwys cyfeiriad at Atodiad 2. Roedd hwn wedi'i gynnwys, mewn camgymeriad, o ddrafft cynharach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Teimlai'r Grŵp Cyngori yn gryf fod y dull Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol (PBS) mewn sefyllfa dda i hyrwyddo ymarfer, a fydd yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i leihau arferion cyfyngol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau penodol ar ofal dementia ac ar yr iaith a'r derminoleg wrth ddrafftio'r Fframwaith terfynol.

Cwestiwn 4:

Ydy Pennod 3 yn esbonio'r egwyddorion ar gyfer ymarfer i gefnogi lleihau arfer arferion cyfyngol mewn ffordd glir a defnyddiol?

Cyfanswm 83	Ydy 62	Nac ydy 3	Ddim yn siŵr 9	Dim ymateb 9
----------------	-----------	--------------	-------------------	-----------------

Crynodeb- Mae mwyafrif yr ymatebion (83%) i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod yr egwyddorion yn glir ac yn pwysleisio'n glir yr egwyddorion allweddol ar gyfer ymarfer er mwyn helpu i gefnogi lleihau arferion cyfyngol.

Roedd y sylwadau'n cynnwys croeso i fanylder y wybodaeth wrth fireinio pam yn union y mae'r elfennau hyn yn hanfodol a beth yw cynnwys yr elfennau hyn yn ymarferol.

Dywedodd un sefydliad nad oedd digon o bwyslais ar bwysigrwydd darparu dull cyfathrebu priodol i unigolion fel y gallant fynegi eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau.

Teimlai un sefydliad fod angen cysylltiad mwy amlwg â risg yma: “Mae Adran 80 yn nodi egwyddorion da ond heb gyfeirio at y ‘sut’”.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau penodol a wnaed, gan gynnwys y rhai ar anghenion cyfathrebu. Bwriad y Fframwaith yw darparu cyfres lefel uchel o egwyddorion a disgwyliadau ar gyfer ymarfer, bydd angen i bob sector ystyried ffyrdd o gefnogi

gweithredu mewn ffordd sy'n esbonio beth mae'r disgwyliadau hyn yn ei olygu i ymarfer yn y sector.

Cwestiwn 5:

Ydy Pennod 4 yn egluro egwyddorion defnyddio arferion cyfyngol mewn ffordd glir a defnyddiol?

Cyfanswm 83	Ydy 61	Nac ydy 8	Ddim yn siŵr 7	Dim ymateb 7
----------------	-----------	--------------	-------------------	-----------------

Crynodeb- Roedd 80% yn cytuno bod y bennod yn crynhoi'n glir a choeth beth yn union y dylid defnyddio'r polisi ar ei gyfer mewn perthynas ag arferion cyfyngol a'i fod hefyd yn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran lleihau ataliaeth ar draws sectorau a phoblogaethau.

Dyweddodd Fforwm Cynghori Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru: *"Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r farn, lle mae arferion cyfyngol yn elfen angenrheidiol o ymyrraeth glinigol, y dylai hynny olygu'r mesurau lleiaf cyfyngol posibl, eu monitro'n aml a'u cofnodi'n glir gyda sail resymegol glir dros eu defnyddio"*.

Awgrymwyd y dylid cynnwys gwybodaeth am ddiben a phwysigrwyd cofnodi achosion o arferion cyfyngol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddwn yn adolygu'r bennod hon gan ystyried ymatebion penodol i'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 6:

Ydy'r wybodaeth sydd yn yr eirfa a'r atodiad yn ddefnyddiol?

Cyfanswm 88	Ydy 70	Nac ydy 0	Ddim yn siŵr 7	Dim ymateb 6
----------------	-----------	--------------	-------------------	-----------------

Crynodeb- Roedd 91% yn cytuno bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr eirfa a'r atodiad yn ddefnyddiol, gan gyfeirio at yr amrywiaeth o ddiffiniadau a grybwyllir yn y ddogfen drwyddi draw gan ei gwneud hi'n syml, yn glir ac yn ddealladwy.

Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar yr eirfa i adolygu rhai o'r diffiniadau a ddefnyddiwyd i sicrhau eu bod yn fwy clir i holl ddefnyddwyr y Fframwaith.

Cyfeiriodd rhai hefyd at y ffaith nad oes sôn am ambell un o'r termau a restrir yn yr eirfa o gwbl ym mhrif gorff y ddogfen, ac y gallai eu cynnwys beri dryswch. Awgrymwyd y dylid ystyried eto a oes eu hangen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r eirfa a'r termau a ddefnyddir ym mhrif gorff y fframwaith yng ngoleuni sylwadau penodol.

Cwestiwn 7:

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau'n eu cael ar y Gymraeg, yn benodol

- i) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac
- ii) ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yna yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Crynodeb- Cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebion barn penodol i'r cwestiwn hwn. Y thema a fynegwyd amlaf mewn ymatebion oedd cwestiynu perthnasedd y cwestiwn yn yr ymgynghoriad; gan ddatgan nad ydynt yn teimlo bod unrhyw gysylltiad rhwng y Gymraeg â'r cynnig; neu, yn llai aml, yn datgan na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (cadarnhaol na negyddol) ar y Gymraeg gan nad yw'r materion yn gysylltiedig. Nododd ymatebwyr hefyd nad oes angen unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd eraill y dylai'r holl wybodaeth am y cynnig a'i weithrediad gael ei chyfleu'n ddwyieithog, yn ogystal ag mewn fformat hawdd ei ddeall, a'i chynhyrchu ar yr un pryd ag unrhyw ddogfennau llawn.

Ymhlith yr ymatebion a gafwyd, roedd consensws cyffredinol y dylai plant a phobl ifanc nid yn unig allu cael gafael ar wasanaethau yn yr iaith o'u dewis, ond y dylent gael eu trin yn briodol i'w hanghenion, ac y dylai hynny hefyd gynnwys iaith arwyddion, braille ac ati, ac y dylai'r holl ddeunydd cyfathrebu a'r holl ddeunyddiau a ddsberthir fod yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad ac mae'n fodlon na fydd y Fframwaith yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Mae pwyslais ar alluogi cyfathrebu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion a dewisiadau'r unigolyn yn cefnogi un o nodau strategol *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r Fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth am yr angen i ddarparu gwasanaethau a chymorth mewn dewis iaith ac i ystyried unrhyw anghenion cyfathrebu eraill wedi'u nodi'n glir.

Cwestiwn 8:

Mae gan Lywodraeth Cymru ddi-ddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynghylch y canllawiau hyn yn cael effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa un neu rai a pham/pam ddim?

Cyfanswm 62	Ydw 54	Nac ydw 8	Ddim yn siŵr Ddim yn gymwys	Dim ymateb 21
----------------	-----------	--------------	-----------------------------------	------------------

Crynodeb- Roedd 87% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Gan fod y Fframwaith yn ddogfen safonedig, wedi'i hatgyfnerthu gan ddeddfwriaeth, ac yn amddiffyn pawb, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, mae'r sylwadau'n nodi y bydd yn gwella ansawdd bywyd unigolion sydd fwyaf tebygol o arddangos ymddygiadau sy'n herio ac sy'n debygol o gael eu heffeithio'n gadarnhaol.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y bydd “gweithredu'r fframwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, a bydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion o anghydraddoldeb cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae pobl â nodweddion gwarchoddedig yn dioddef arferion ac ataliadau cyfyngol yn anghymesur ar draws pob sector. Bydd yr aliniad agos â hawliau dynol yn helpu i sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol. Yn benodol, bydd o fudd i oedolion a phlant agored i niwed gydag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, anafiadau i'r ymennydd, Awtistiaeth, pobl â phroblemau emosiynol a phobl â dementia. Bydd hefyd o fudd i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n agored i niwed.”

Dywedodd Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent: “Mae'r fframwaith hwn yn gam sydd ei angen yn ddirfawr tuag at ddull mwy cadarnhaol a chydymdeimladol o ymdrin â gofal. Mae'n ddull sy'n canolbwyntio llawer mwy ar yr unigolyn ac mae'n ystyried trin anghenion pob unigolyn yn hytrach na defnyddio dull cyffredinol o gynnig gofal” ac y gall “y ddealltwriaeth newydd hon hefyd ganolbwyntio ar ymgysylltu mwy cadarnhaol fel dysgu a datblygu â chefnogaeth. Bydd yn helpu i gefnogi pobl i sicrhau dyfodol disgleiriach ac mae'n ddull llawer mwy moesegol o gefnogi pobl.”

Dywedodd un sefydliad, “Bydd yn darparu effaith gadarnhaol gyffredinol oherwydd egwyddorion PBS. Bydd yn sicrhau bod pobl yn berthynol yn eu dulliau gweithredu yn hytrach nag yn ymddygiadol yn unig. Mae'n meithrin diwylliant lle bydd pobl yn gwrando ac yn cyfathrebu â'i gilydd. Bydd yn rhaid gwrando ar y grwpiau hynny sy'n fwy ymylol ac sy'n dioddef gwahaniaethu”.

Dywedodd Mind Cymru y byddai'r Fframwaith yn cael ei gryfhau drwy ddatgan yn glir y dylai sefydliadau gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig mewn perthynas â defnyddio arferion cyfyngol ac y dylid defnyddio hyn i fonitro materion cydraddoldeb a gwella ymarfer.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon na fydd y Fframwaith yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion a gafwyd i lywio ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Byddwn hefyd yn ystyried sylwadau penodol wrth ddrafftio'r Fframwaith terfynol.

Cwestiwn 9:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni amdanynt:

Crynodeb- Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn amrywio o sefydliadau yn datgan barn neu gyflwyno tystiolaeth wrth fynegi eu barn ar arferion cyfyngol, neu gan unigolion a oedd yn dymuno mynegi barn neu gyflwyno tystiolaeth o brofiad o arferion cyfyngol.

Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- Gymryd camau i sicrhau bod y fframwaith yn arwain at welliannau gwirioneddol mewn ymarfer drwy ddatblygu cynllun gweithredu, sefydlu rôl glir i reoleiddwyr, a hyrwyddo'r canllawiau ymhlith darparwyr gwasanaethau. Rydym yn argymhell bod effeithiolrwydd y fframwaith yn cael ei adolygu'n barhaus a bod camau ychwanegol yn cael eu cymryd os nad yw'n cael ei fabwysiadu'n ddigonol gan ddarparwyr. Gallai hyn gynnwys rhoi grym statudol i'r canllawiau, neu agweddau ar y canllawiau, neu ddatblygu canllawiau pellach i gefnogi gwelliannau mewn sectorau penodol.
- Nodi'n glir yr angen i ddarparwyr gwasanaethau gasglu a monitro data ar y defnydd o ataliaeth, gan gynnwys ar bobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol. Gellir defnyddio'r data hwn i ddeall a mynd i'r afael â'r defnydd anghymesur o ataliaeth ar grwpiau penodol, ac i asesu a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Sicrhau bod y canllawiau'n gwbl gynhwysfawr drwy ychwanegu rhagor o wybodaeth fel yr amlygwyd yn ein hymateb, gan gynnwys cyngor am yr ystyriaethau penodol sy'n berthnasol i blant a'r defnydd o ataliaeth, y sail gyfreithiol

ar gyfer ataliaeth, risgiau ataliaeth wyneb i lawr, a'r angen am weithdrefnau cwyno effeithiol.

Roedd cymorth i weithredu'r Fframwaith drwy ddatblygu'r gweithlu a mesurau i adolygu gweithredu yn thema a oedd yn codi'n gyson mewn ymatebion eraill i'r cwestiwn olaf hwn.

Nododd y Challenging Behaviour Foundation fod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ddrafftio canllawiau, a dywedodd fod angen i ddatblygiad pellach o'r canllawiau gynnwys unigolion sydd wedi profi ymyriadau cyfyngol a'u teuluoedd, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth sy'n cyfathrebu'n ddeiriau. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael mewn fersiynau Hawdd eu Deall a Chyfeillgar i Bobl Ifanc.

Darparodd grŵp o 9 defnyddiwr gwasanaeth a ymatebodd ar ran Ludlow Street Health Care ymateb ar y cyd. Roeddent yn teimlo bod yr argymhellion yn glir; fodd bynnag, roeddent yn pryderu na fyddent yn cael eu gwireddu. Roeddent yn teimlo bod angen newid fel bod staff yn deall hawliau dynol ac mae angen newid y diwylliant 'ni a nhw' sy'n aml yn bodoli. O'u profiad hwy, roeddent yn teimlo nad oedd cwynion bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif, yn enwedig pan oeddent yn teimlo bod ataliad wedi'i ddefnyddio'n amhriodol. Eu hawgrym hwy oedd y gallai sicrhau bod cwynion yn cael eu prosesu gan berson annibynnol helpu gyda hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Croesawodd Llywodraeth Cymru yr holl awgrymiadau a wnaed a byddwn yn ystyried y rhain wrth ddrafftio'r Fframwaith terfynol. Rydym yn ymwybodol y bydd cymorth ar lefel sector ar gyfer gweithredu yn hanfodol, drwy bolisi, hyfforddiant ac ymarfer. Cam cyntaf yn unig yw cyhoeddi Fframwaith terfynol.

6. Casgliad

Yn gyffredinol, mae ymgynghoriad drafft y Fframwaith wedi cael croeso a derbyniad cadarnhaol. Mae ein hymateb i bob cwestiwn uchod yn nodi'r ffyrdd y byddwn yn defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio'r Fframwaith terfynol.

Derbyniwyd rhai awgrymiadau a byddant yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith; fodd bynnag, ni fydd argymhellion eraill yn cael eu cynnwys ond gellir eu hystyried yn ystod y gwaith parhaus sy'n ymwneud â monitro a gweithredu, a byddant yn cael eu rhannu i'w hystyried gan adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb arweiniol o fewn eu maes gwaith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn fanylach yr opsiynau gorau ar gyfer cefnogi gweithredu'r Fframwaith yn effeithiol a'r disgwyliadau a nodir ynddo, ym mhob sector perthnasol.

Atodiad A – Rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a roddodd ganiatâd i rannu eu hymatebion

Rhif	Cyfrinachol Ydy/Nac ydy/Dim ymateb	Sefydliad/Ar ran
1	Ydy	
2	Ydy	
3	Ydy	
4	Dim ymateb	Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
5	Ydy	
6	Ydy	
7	Nac ydy	"Rwy'n Fwdhydd"
8	Ydy	
9	Ydy	
10	Ydy	
11	Ydy	
12	Ydy	
13	Nac ydy	39/SA14 6BX
14	Ydy	
15	Ydy	
16	Ydy	
17	Nac ydy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
18	Ydy	
19	Nac ydy	Prifysgol Strathclyde
20	Nac ydy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
21	Dim ymateb	"Rhiant a minnau ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig hefyd" Sarah Jane Daniel
22	Ydy	
23	Nac ydy	Pobl yn Gyntaf Torfaen
24	Nac ydy	Mind Cymru
25	Nac ydy	Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan
26	Nac ydy	Gwelliant Cymru
27	Nac ydy	Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Annibynnol ac Ysgolion Arbennig nas Cynhelir (NASS)
28	Nac ydy	Cyngor Abertawe – Gwasanaethau Cymdeithasol
29	Nac ydy	Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol, Plentyn a Theulu – Gwasanaeth Seicoleg a Therapiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
30	Nac ydy	Psychologists for Social Change
31	Dim ymateb	Andrew Guy
32	Ydy	
33	Ydy	
34	Ydy	
35	Nac ydy	Cyngor Sir y Fflint
36	Nac ydy	Care without Compromise Ltd

37	Nac ydy	The Caldecott Foundation
38	Nac ydy	PRRICE yn cynnwys holl Gynrychiolaeth Byrddau Iechyd yng Nghymru
39	Nac ydy	Adenydd, elusen gofrestrdedig rhif 1182052
40	Dim ymateb	Dim enw
41	Ydy	
42	Nac ydy	Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
43	Nac ydy	Beam Consultancy
44	Ydy	
45	Nac ydy	Anabledd Dysgu Cymru
46	Nac ydy	University of Vermont Medical Center, Healthy Design LLC
47	Nac ydy	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
48	Ydy	
49	Dim ymateb	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
50	Ydy	
51	Nac ydy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
52	Ydy	
53	Dienw	Hawdd ei ddeall – nid yw'r manylion ar gael
54	Nac ydy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
55	Nac ydy	Mudiad Meithrin
56	Dienw	Hawdd ei ddeall – nid yw'r manylion ar gael
57	Ydy	
58	Nac ydy	Cymdeithas Syndrom Down
59	Nac ydy	Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
60	Nac ydy	Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
61	Dim ymateb	Comisiynydd Plant Cymru
62	Nac ydy	UCAC
63	Dim ymateb	Cymdeithas Alzheimer Cymru
64	Dim ymateb	Pwyllgor Cynghorol Therapiau Cymru
65	Dim ymateb	Fforwm Cynghori Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru
66	Dim ymateb	Cyngor y Gweithlu Addysg
67	Dim ymateb	Gofal Cymdeithasol Cymru
68	Dim ymateb	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
69	Dim ymateb	ASCL Cymru
70	Dim ymateb	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
71	Dim ymateb	Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
72	Dim ymateb	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
73	Nac ydy	Ludlow Street Health Care
74	Dim ymateb	Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg
75	Dim ymateb	Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
76	Dim ymateb	NASUWT
77	Dim ymateb	Ludlow Street Health Care Group Ltd

78	Dim ymateb	The Challenging Behaviour Foundation
79	Dim ymateb	Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu (LDMAG)
80	Dim ymateb	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
81	Ydy	
82	Dim ymateb	Cyngor Caerdydd
83	Dim ymateb	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion